# Gwneud cais

Mae ein proses ymgeisio yn syml ac yn dryloyw.

Dyma sut mae'n gweithio:

### Cam 1: Gwneud cais

- Ewch draw i'n porth recriwtio a chlicio ar **"Apply Now."** Llenwch y ffurflen ar-lein gyda'ch manylion a'i chyflwyno.
- Os na allwch lenwi'r ffurflen ar-lein, anfonwch eich cais at **People.Services@Trivallis.co.uk**

Sylwch fod rhaid i'ch cais ein cyrraedd ni cyn y dyddiad cau penodedig.

### Cam 2: Cadw mewn cysylltiad

- Byddwn yn adolygu'ch cais. Gallwch we3ld hynt eich cais ar-lein trwy ein porth recriwtio. Gallwch ddisgwyl clywed gennym ni o fewn pythefnos i'r dyddiad cau.
- Bydd ymgeiswyr sy'n gwneud cais o dan ein Cynllun Hyderus o ran Anabledd yn cael adborth yn y cam rhestr fer.

### Cam 3: Cwrdd â ni

- Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, byddwn yn darparu'r holl fanylion ymlaen llaw, gan gynnwys unrhyw ddulliau cyfweld ac asesu y galllem eu defnyddio. Gallwn fod yn hyblyg o ran amseroedd, felly cysylltwch â ni i drafod hyn.
- Yn ystod y cyfweliad, byddwn yn sgwrsio am eich profiad, a byddwch yn cael cyfle i ofyn cwestiynau hefyd. Efallai y bydd tasg neu gyflwyniad hefyd fel y gallwch arddangos eich sgiliau.
- Ein nod yw dod yn ôl atoch gyda chanlyniad a rhoi adborth cyn gynted â phosibl.

### Cam 4: Croeso i Trivallis

- Os byddwch chi'n llwyddiannus, byddwn yn cysylltu i drafod y camau nesaf a sicrhau bod gennych chi bopeth sydd ei angen arnoch i ddechrau.




Os hoffech gael gwybod mwy am rôl, e-bostiwch ein tîm Gwasanaethau Pobl ar **People.Services@trivallis.co.uk**

disability confident EMPLOYER

Trivallis.